

Yr Hyn Rydyn Ni'n ei Glywed

Crynodeb o brofiadau pobl o iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru

Mae'r crynodeb hwn yn rhoi i'r Bwrdd y prif ganfyddiadau o'n dadansoddiad o'r hyn a ddywedodd pobl wrth Llais rhwng mis Ebrill a mis Medi 2026. Mae'n rhoi sylw i ymgysylltu cymunedol, eiriolaeth cwynion, cyflwyno sylwadau a gwaith rhanbarthol, a brofir yn erbyn tystiolaeth o ran rheoleiddio, craffu a pholisïau. Caiff y dadansoddiad llawn ei ddatblygu'n gyhoeddiad Yr Hyn Rydyn Ni'n ei Glywed ar gyfer Gweinidogion Cymru, partneriaid a'r cyhoedd.

NEGSEUON ALLWEDDOL

Mae cael gofal yn anodd ond, yn aml, mae dod o hyd i'ch ffordd drwy'r system ofal yn anoddach. Mae pobl yn disgrifio gorfod mynd ar drywydd atgyfeiriadau, ailadrodd eu stori a pheidio â gwybod pwy sy'n gyfrifol, gyda theuluoedd wedyn yn gorfod cydlynu eu gofal eu hunain.

Mae'r hyn sy'n digwydd unwaith y bydd gofal yn dechrau yr un mor bwysig â chael eich derbyn i'r system. Triniaeth, cael diagnosis ac agweddau aelodau staff yw'r rhesymau mwyaf cyffredin o ran pam mae pobl yn dod at ein gwasanaeth eiriolaeth cwynion (1,064 o gofnodion, rhwng mis Ebrill a mis Medi).

Mae cyfran lai o'r hyn a glywn yn ymwneud â gofal cymdeithasol, ond yn aml mae'n fwy difrifol o ran ei ganlyniadau, ac mae'n sail i lawer o brofiadau o fewn y GIG, fel oedi wrth ryddhau cleifion a phwysau ar ofalwyr di-dâl.

Mae penderfyniadau cenedlaethol yn cael eu teimlo'n lleol: yr oedi o ran llawdriniaeth cadarnhau rhywedd, gofynion cymhwystra llymach ar gyfer cludo cleifion mewn achosion nad ydynt yn rhai brys, ynghyd ag oediadau cyn trosglwyddo cleifion o ambiwlansys.

Mae gofal da yn edrych yr un peth ym mhobman. Mae pobl yn cael eu clywed, mae gwybodaeth yn eu dilyn, mae rhwystrau'n cael eu cydnabod ac mae rhywun yn ymateb iddynt ac yn eu datrys. Rydym yn clywed hyn ym mhob rhanbarth.

ADRAN 1
Yn Erbyn Egwyddorion y Bobl

Mae'r arwyddion cryfaf yn ymwneud â mynediad, cyfathrebu, gofal a chymorth cydgysylltiedig wrth aros. Urddas a gofal ar gyfer yr unigolyn yn ei gyfanrwydd sy'n cyfleu'r darlun mwyaf cymysg, a dyma lle gwelir llawer o'r profiadau mwyaf cadarnhaol.

Egwyddor	Arwydd	Crynodeb
1. Mynediad sy'n gweithio i bawb	Cryf iawn Pryderon yn bennaf	Amseroedd aros i weld Meddyg Teulu, gwasanaethau deintyddol a diagnostig; pellter o wasanaethau mewn ardaloedd gwledig a chludiant; cymhwysedd cleifion am wasanaethau cludiant
2. Urddas a pharch	Cryf Cymysg	Teimlo eu bod yn cael eu diystyru, gofal mewn coridor, ochr yn ochr â llawer o ganmoliaeth i staff caredig a thosturiol
3. Cyfathrebu clir a gonest	Cryf iawn Pryderon yn bennaf	Mynd ar drywydd canlyniadau; canslo heb eglurhad; newidiadau i wasanaethau na chafodd pobl wybod amdanynt
4. Gofal cydgysylltiedig	Cryf iawn Pryderon yn bennaf	Bylchau rhwng gofal y Meddyg Teulu, yr ysbyty a gofal cymdeithasol; rhyddhau o ofal; gofal trawsffiniol
5. Gofal a chymorth amserol wrth aros	Cryf iawn Pryderon yn bennaf	Iechyd meddwl, ADHD ac awtistiaeth, orthopedeg, gynaeceleg; ychydig iawn o gefnogaeth wrth aros, a chyfnodau aros hir
6. Gofal sy'n ystyried yr unigolyn yn ei gyfanrwydd	Cryf Cymysg, yn dueddol o gyfeirio at bryderon	Iechyd corfforol a meddyliol yn cael eu trin ar wahân; gofalwyr yn cael eu hanwybyddu; pobl yn rhoi gwybod am gartrefi gofal da

Egwyddor	Arwydd	Crynodeb
7. Galluogi annibyniaeth	Canolig Cymysg	Oediadau o ran pecynnau a chyfarpar gofal; sicrhawyd addasiadau pan godwyd y mater, ond mae angen cymorth i gyflawni canlyniadau gwell
8. Gwasanaethau cymhwysol a theg	Cryf Cymysg, yn dueddol o gyfeirio at bryderon	Anabledd, y Gymraeg, anghenion cyfathrebu, allgáu digidol, anawsterau o ran byw mewn ardaloedd gwledig

Mae cryfder yr arwyddion yn farn ansoddol o ran pa mor aml a pha mor eang y mae thema yn ymddangos ar draws rhanbarthau a ffynonellau; nid sgôr ydyw.

ADRAN 2

Materion cenedlaethol

- **Gwasanaeth Rhywedd Cymru:** mae'r oedi o ran atgyfeiriadau ar gyfer llawdriniaeth cadarnhau rhywedd a llawdriniaeth wedi'i drefnu yn ystod adolygiad annibynnol wedi achosi gofid ac ansicrwydd. Mae pobl eisiau gwybodaeth glir ac amserol.
- **Cludo cleifion mewn achosion nad ydynt yn rhai brys:** arweiniodd gofynion cymhwysedd llymach o fis Ebrill ymlaen at achosion o ganslo ar fyr rybudd, apwyntiadau a fethwyd a phobl yn gorfod talu am dacsis. Yn dilyn ein sylwadau, cytunodd Gwasanaeth Ambiwlans Cymru i gyhoeddi gwybodaeth gliriach a chysylltu â phobl yn uniongyrchol.
- **Trosglwyddo cleifion o ambiwlansys a gofal brys mewn ardaloedd gwledig:** mae oedi wrth drosglwyddo yn effeithio cleifion y tu allan i adrannau brys, a phobl sy'n disgwyl yn y gymuned, ac mae'r sefyllfa'n peri mwy o bryder mewn ardaloedd gwledig. Rydym yn adolygu cynlluniau'r byrddau iechyd ar gyfer y gaeaf o safbwynt pobl.
- **Newidiadau o ran gwasanaethau:** mae cynigion ym Mhowys, Bae Abertawe, Gorllewin Cymru, Gogledd Cymru, a De-ddwyrain Cymru yn codi cwestiynau cyffredin ynghylch teithio, dewisiadau amgen yn nes at adref, a ph'un a fydd barnau pobl yn llywio penderfyniadau.

ADRAN 3

Gofal cymdeithasol

Mae pobl yn dweud wrthym am oediadau o ran asesu, anhawster o ran trefnu pecynnau gofal a seibiant, a bylchau o ran parhad gwasanaethau. Mae gofal cymdeithasol hefyd yn llywio profiadau o'r GIG, o ran rhyddhau cleifion o ofal, ynghyd â'r pwysau ar ofalwyr di-dâl. Mae canfyddiadau Arolygiaeth Gofal Cymru yn Sir y Fflint, Pen-y-bont ar Ogwr a Sir Fynwy ynghylch asesu, cymorth i ofalwyr ac eiriolaeth yn cyd-fynd â'r hyn a glywn. Hyd yma, nid yw ein tystiolaeth ynghylch gofal cymdeithasol mor gyfoethog â hynny yng nghyswllt y GIG, felly byddwn yn ei chofnodi'n fwy cyson, yn canolbwyntio mwy ar ymgysylltu â phobl sy'n derbyn gofal a gofalwyr di-dâl, ac yn gweithio'n agosach gyda phartneriaid sy'n clywed ganddynt.

ADRAN 4

Beth sy'n gweithio

Mae pobl bob amser yn gwerthfawrogi staff caredig, llawn parch ac ymatebol, ac rydym yn clywed am brofiadau cadarnhaol o ran gofal mewn ysbytai, gofal mamolaeth, canser a meddygon teulu, gwasanaethau deintyddol a chartrefi gofal. Croesewir trefniadau clir mewn ardaloedd lleol o ran derbyn galwadau yn ôl gan feddygon teulu a brysbennu. Ac roedd staff sy'n egluro pethau ac yn mynd ar drywydd materion, ynghyd â threfniadau i wneud addasiadau ymarferol i bobl anabl, yn gwneud gwahaniaeth mawr. Mae arferion da y gellir adeiladu arnynt eisoes ar waith.

ADRAN 5

Y camau nesaf

Byddwn yn datblygu'r dadansoddiad llawn yn gyhoeddiad dan y teitl Yr Hyn Rydym yn ei Glywed erbyn diwedd mis Hydref. Bydd hwn wedyn yn dod yn gyhoeddiad chwarterol rheolaidd, a gobeithiwn y bydd llunwyr polisi, a'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau am wasanaethau, yn ei ddefnyddio i wella gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.